

Galwad Agored Prosiect Cymunedau Gwyrdd

Beth yw'r Gronfa Cymunedau Gwyrdd?

Mae'r Gronfa Cymunedau Gwyrdd yn brosiect fydd yn cefnogi gwelliannau i ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn treulio amser hamdden drwy gyrraedd amcanion llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yn seiliedig ar leoedd drwy gefnogi mentrau cydweithredol sydd dan arweiniad y gymuned mewn trefi a phentrefi. Bydd yn cefnogi i fyny at 30 o gymunedau a gaiff eu dethol drwy alwad agored i gymryd rhan yn y prosiect.

Mae'r canllawiau hyn yn gosod y gofynion ar gyfer anfon cais am gynnig prosiect yn dilyn yr alwad agored. Bydd raid i brosiect sy'n cyflwyno cynnig fel ymateb i'r alwad agored amlinellu sut y byddant yn cynnig mynediad i wasanaethau a mentrau cymunedol ac uno egwyddorion Rheolaeth Gynladwy o Adnoddau Naturiol o fewn y gweithgareddau a'r adnoddau cymunedol.

Mae'r meini prawf yn gofyn am brosiectau fydd yn cyfrannu at y canlynol:

- Gwella ac ehangu ansawdd yr amgylchedd lleol;
- Mynd ati'n weithredol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Datblygu a gwella mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy; a
- Gwella cydnerthedd ecosystemau.

Bydd y 30 cymuned llwyddiannus yn gweithredu newidiadau fydd yn cefnogi mynediad at wasanaethau a mentrau a chyfleusterau cymunedol i wella cydnerthedd drwy fynd i'r afael â materion megis:

- Tlodi – tlodi gwledig, tlodi tanwydd, tlodi mewn gwaith a thlodi oherwydd diffyg mynediad at wasanaethau
- Cynaliadwyedd ariannol – cefnogi gweithgareddau gwyrdd sy'n ffurfio rhan o fentrau a gwasanaethau cymunedol gyda'r nod o sicrhau hyfywedd ariannol a chynladwyedd yr asedau
- Newid yn yr hinsawdd – cynnig gweithgaredd sy'n lliniaru a lleihau allyriannau carbon
- Yr Amgylchedd/ ansawdd yr amgylchedd leol - cynnig gwasanaethau yn lleol a lleihau'r angen i deithio
- Allgáu cymdeithasol – cefnogi cyfleusterau a gwasanaethau dan arweiniad y gymuned gyda phwyslais ar gyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol

Wrth gyflenwi'r gweithgareddau uchod, rhaid ystyried cyfleoedd i hyrwyddo:

- Presgripsiynu gwyrdd (cymdeithasol);
- Atebion sy'n seiliedig ar natur;
- Cysylltiadau cliriach rhwng adnoddau naturiol a llesiant;
- Gwirfoddoli;
- Hyfforddiant ac addysg; a
- Newid ymddygiad.

Pa fath o brosiectau fydd yn gymwys?

- Prosiectau isadeiledd gwyrdd – rhwydweithiau o goridorau gwyrdd, parciau, cyfleusterau a chanolfannau gwyrdd, caeau, gwarchodfeydd natur, hawl tramwy cyhoeddus, afonydd, nentydd a pyllau lleol, rhandiroedd a pherllannau, coedlannau, mynwentydd a gerddi. Gall

ymyriadau gynnwys coed stryd, gwrychoedd, ymylon ffyrdd, a choridorau yn cysylltu ardaloedd gwledig a threfol, toau gwyrdd, fel cyfraniad at rhwydwaith isadeiledd gwyrdd.

- Prosiectau sy'n arwain at gwell cyfleoedd a chyfleusterau hamdden yn yr awyr agored, gan gynnwys gwella gwyrddni asedau cymunedol fel neuaddau pentref a rhandiroedd (all arwain at gynnydd yn nifer ymwelwyr a gwella llesiant)
- Prosiectau sy'n arwain at wella cyfleoedd i brescripsiynu gwyrdd a dysgu (gan arwain at fwy o oriau a niferoedd gwirfoddolwyr)
- Prosiectau sy'n arwain at gynnydd yn y defnydd o ofod gwyrdd gan unigolion, cymunedau, ysgolion a grwpiau ieuenctid
- Prosiectau sy'n arwain at gynnydd mewn gofod gwyrdd sy dan berchnogaeth a rheolaeth lleol – sy'n gwella gydlynid cymunedol
- Prosiectau sy'n arwain at gynnydd mewn gorchudd coed, yn enwedig mewn ardaloedd trefol (nifer y coed a'r rhwyogaeth cywir yn y man cywir)
- Prosiectau all helpu leihau lefelau swm o fewn cymunedau (gyda lleihad mesuradwy yn y raddfa decibel)

Esiamplau o brosiectau cymwys

Gerddi gyffwrdd

Gerddi gwenyn

Canolfannau a mentrau cymunedol all gyfrannu at lliniaru allyriannau carbon

Gofod gwyrdd gan gynnwys parciau

Ardaloedd chwarae

Gerddi cymunedol, gerddi berlysiâu a gerddi coedwig, perllannau

Ardaloedd bywyd gwyllt

Mynwentydd

Afonydd, nentydd a pyllau dwr

Tramwyfeydd a gwrychoedd ar gyfer bioamrywiaeth i gysylltu ardaloedd cymunedol

Trafnidiaeth werdd – gosod isadeiledd fel rhwydwaith beiciau a mannau gwefru ar gyfer beiciau trydan, arwyddo a gwella llwybrau cerdded trefol a cylchdeithiau o gwmpas pentrefi

Milltiroedd cymunedol – datblygu a lledaenu i gysylltu cymunedau

Llwybrau agored i bawb o bob abledd

COSTAU ANGHYMWYS

Nid yw'r eitemau na'r mathau isod o wariant yn gymwys:

- prynu tir sydd yn fwy na 10% o werth y prosiect cyfan;
- prynu cerbydau ar gyfer cludo nwyddau yn allanol (megis lorïau, bysiau, faniau, minibysiau neu unrhyw fath arall o gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo);
- unrhyw waith ffisegol ar safle neu unrhyw wariant arall cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth roddwr y grant;
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â chyflawni'r prosiect;
- costau cynnal a chadw adeiladau, peiriannau neu gyfarpar sydd gan y sefydliad eisoes;
- cyfnewid eitemau am eitemau tebyg;
- costau sy'n gysylltiedig â chontract lesio megis costau gwarantu sydd gan y lesydd, costau ariannu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant;
- costau sy'n gysylltiedig â threfnu benthyciadau, TAW a threthi eraill sy'n adenilladwy gan y buddiolwr, costau gweinyddol a chostau staff, neu iawndal a delir i drydydd partïon am ddifeddu, etc;
- gorbenion a ddyrennir neu a ddosrennir ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer costau tebyg a dynnir drwy ddulliau cymaradwy eraill;
- gwariant tybiannol;
- taliadau am weithgarwch sy'n grefyddol a/neu'n wleidyddol ei natur;
- dibrisiant, amorteiddiad a lleihad mewn gwerth asedau a brynwyd â chymorth grant Ewropeaidd;
- darpariaethau;
- rhwymedigaethau digwyddiadol;
- treuliau annisgwyl;
- difidendau i gyfranddalwyr;
- taliadau llog (oni bai eu bod o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy);
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o lesau cyllid, hurbwrcasu neu drefniadau credyd;
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr;
- costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben;
- taliadau am bensiynau heb eu cyllido;
- iawndal am golli swydd;
- drwgddyledion sy'n deillio o fenthyciadau i gyflogeion, perchenogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain;
- taliadau am anrhegion a rhoddion;
- adloniant personol (gan gynnwys alcohol);
- dirwyon a chosbau statudol;
- trethi statudol (ac eithrio TAW na ellir ei hadennill);

- dirwyon ac iawndal troseddol;
- treuliau cyfreithiol mewn cysylltiad ag ymgyfreitha; a
- TAW adenilladwy
- Costau swyddogion o fudiadau 3ydd parti

Os oes unrhyw ansicrwydd mewn unrhyw achos penodol, gellir cysylltu ag Uned Rheoli Cynlluniau i ofyn am gyngor ar y broses ymgeisio lawn.

Ardaloedd Cymwys

Ardaloedd gwledig yn Sir Fflint, Dinbych, Wrecsam a Chonwy.

Uchafswm y Gronfa

Mae'r Gronfa Cymunedau Gwyrdd yn cynnig hyd at werth £30,000 ar gyfer pob cais cymunedol sy'n gymwys. Mae angen arian cyfatebol o 14.4% i gymryd rhan yn y prosiect, ond gall Swyddogion y Gronfa gynnig help llaw i gymunedau ddarganfod a diogelu'r arian yma.

Pwy all wneud cais?

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cyngorau cymunedol a threfol, awdurdodau lleol
- Mentrau cymdeithasol nid-er-elw gan gynnwys undebau credyd
- Mentrau cydweithredol
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau dan berchnogaeth y gymuned
- cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- cwmnïau buddiannau cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- elusennau
- sefydliadau yn y trydydd sector

Gall mudiadau nad ydynt yn endid cyfreithlon gymryd rhan yn y prosiect ond bydd Cadwyn Clwyd yn gyfrifol am bob gwariant yn yr achos hynny. Gall mudiadau sy'n endid cyfreithiol geisio gwariant yn uniongyrchol (gwariant ymgeisydd) neu ofyn i Cadwyn Clwyd ymgeisio ar eu rhan (gwariant Cadwyn Clwyd). Rhaid i bob ymgeisydd gwariant uniongyrchol sicrhau fod ganddynt Rif Cyfeirnod Cwsmer gan Taliadau Gwledig Cymru cyn dechrau ar y prosiect.